



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 619 (Cy. 141)

2020 No. 619 (W. 141)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Wales) (Amendment)
(No. 6) Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

Regulation 2 of these Regulations amends the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020.

Mae'r diwygiadau yn cynnwys darpariaeth—

The amendments consist of provision—

- (a) sy'n caniatáu i fangroedd penodol fod ar agor er mwyn i athletwyr elit hyfforddi ac sy'n darparu ei bod yn esgus rhesymol i athletwr elit fod i ffwrdd o'i ardal leol, neu ymgynnull gyda phersonau eraill at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;

- (a) permitting certain premises to be open for elite athletes to train and providing that it is a reasonable excuse for elite athletes to be away from their local area, or to gather with other persons for the purposes of training or competition;

- (b) sy'n caniatáu i siopau bu'n gorfod bod ar gau (a mangreuedd tebyg gan gynnwys delwriaethau ceir a marchnadoedd awyr agored) i agor, ond nodir fod rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion cadw pellter corfforol a rhaid i'w cwsmeriaid aros yn yr ardal sy'n lleol i'r man lle y maent yn byw;
- (c) sy'n codi cyfyngiadau ar gynnal seremonïau priodas a phartneriaethau sifil, yn ddarostyngedig i ofynion cadw pellter corfforol;
- (d) sy'n caniatáu i fannau addoli agor ar gyfer gweddïo preifat;
- (e) sy'n ei gwneud yn glir y caiff man addoli neu ganolfan gymunedol agor (ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol) er mwyn darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus;
- (f) sy'n datgan ei bod yn esgus rhesymol gadael eich ardal leol neu fod o dan do gyda phersonau eraill er mwyn pleidleisio mewn etholiad pan na fo'n rhesymol ymarferol pleidleisio ac eithrio'n bersonol;
- (g) sy'n datgan ei bod yn esgus rhesymol gadael eich ardal leol neu ymgynnull o dan do gyda phersonau eraill er mwyn—
 - (i) symud tŷ;
 - (ii) paratoi eiddo i rywun symud i mewn;
 - (iii) ymweld ag asiant eiddo neu asiant gosod eiddo, swyddfa werthiant datblygwr neu gartref arddangos mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu neu rentu eiddo nad yw wedi ei feddiannu;
 - (iv) gweld eiddo nad yw wedi ei feddiannu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 619 (Cy. 141)

2020 No. 619 (W. 141)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Wales) (Amendment)
(No. 6) Regulations 2020**

Gwnaed 19 Mehefin 2020

Made 19 June 2020

Yn *dod* *i*
rym *am 12.01 a.m. ar 22 Mehefin 2020*

Coming *into*
force *at 12.01 a.m. on 22 June 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *am 11.00 a.m. ar 22 Mehefin 2020*

Laid *before* *Senedd*
Cymru *at 11.00 a.m. on 22 June 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that the amendments made by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 a deuant i rym am 12.01 a.m. ar 22 Mehefin 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1—

(a) ym mharagraff (3), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(ba) ystyr “athletwr elit” yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru;”

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) At ddibenion y diffiniad o “athletwr elit” ym mharagraff (3)—

(a) nid yw unigolyn wedi ei ddynodi gan Gyngor Chwaraeon Cymru onid yw'r unigolyn wedi ei enwebu am ddynodiad gan gorff camp perthnasol a bod y Cyngor wedi derbyn yr enwebiad, a

(b) ystyr “corff camp perthnasol” yw corff llywodraethu cenedlaethol camp a gaiff enwebu athletwyr i gynrychioli—

(i) Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn y Gemau Olympaidd neu'r Gemau Paralympaidd, neu

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 and they come into force at 12.01 a.m. on 22 June 2020.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 1—

(a) in paragraph (3), after sub-paragraph (b) insert—

“(ba) “elite athlete” means an individual designated as such for the purposes of these Regulations by the Sports Council for Wales;”

(b) after paragraph (3) insert—

“(4) For the purposes of the definition of “elite athlete” in paragraph (3)—

(a) an individual is designated by the Sports Council for Wales only if the individual has been nominated for designation by a relevant sporting body and the Council has accepted the nomination, and

(b) “relevant sporting body” means the national governing body of a sport which may nominate athletes to represent—

(i) Great Britain and Northern Ireland at the Olympic or Paralympic Games, or

(1) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/529 (Cy. 124)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/557 (Cy. 129)).

(1) S.I. 2020/353 (W. 80) as amended by the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/399 (W. 88)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/452 (W. 102)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/497 (W. 118)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/529 (W. 124)) and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/557 (W. 129)).

(ii) Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

(5) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

- (a) mae person yn cymryd rhan cynulliad os yw'r person hwnnw yn ymgynnull ag un neu ragor o bersonau eraill yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd;
- (b) mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoddd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(1)."

(3) Yn rheoliad 4—

- (a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "6(1)" rhodder "6(2)";
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—
 - "(ba) o fangre ar gyfer hyfforddi athletwyr elit, gan gynnwys canolfannau sglefrio, pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, canolfannau hamdden o dan do a chyfleusterau chwaraeon eraill (boed o dan do neu yn yr awyr agored);";

(4) Yn lle rheoliad 6 rhodder—

"Cyfyngiad cyffredinol ar siopau a busnesau a gwasanaethau penodol eraill

6.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

- (a) i berson ("P") sy'n gyfrifol am gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1, a
- (b) mewn cysylltiad ag unrhyw fangre lle y cynhelir y busnes neu lle y darperir y gwasanaeth.

(2) Rhaid i P gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),
- (b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac

(ii) Wales at the Commonwealth Games.

(5) For the purposes of these Regulations—

- (a) there is a gathering when two or more people are in the same place in order to do something together, and
- (b) premises are indoors if they are enclosed or substantially enclosed within the meaning given by regulation 2 of the Smoke-free Premises etc. (Wales) Regulations 2007(1)."

(3) In regulation 4—

- (a) in paragraph (1)(b), for "6(1)" substitute "6(2)";
- (b) in paragraph (5), after sub-paragraph (b) insert—
 - "(ba) premises for training for elite athletes, including skating rinks, swimming pools, indoor fitness studios, gyms, indoor leisure centres and other sports facilities (whether indoors or outdoors);";

(4) For regulation 6 substitute—

"General restriction on shops and certain other businesses and services

6.—(1) Paragraph (2) applies—

- (a) to a person ("P") responsible for carrying on a business, or providing a service, listed in Part 4 of Schedule 1, and
- (b) in respect of any premises where the business is carried on or the service is provided.

(2) P must take all reasonable measures to ensure—

- (a) that a distance of 2 metres is maintained between any persons on the premises (except between two members of the same household, or a carer and the person assisted by the carer),
- (b) that persons are only admitted to the premises in sufficiently small numbers to make it possible to maintain that distance, and

(1) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

(1) S.I. 2007/787 (W. 68)

(c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr)."

(5) Yn rheoliad 6A(2), hepgorer is-baragraff (b) a'r "neu" o'i flaen.

(6) Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle is-baragraff (aa) rhodder—

"(za) i weinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil,";

(ii) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) ar gyfer gweddiö gan—

(i) unigolyn,

(ii) aelodau o'r un aelwyd, neu

(iii) unigolyn a gofalwr yr unigolyn,

nad yw'n rhan o gydaddoli,";

(iii) yn is-baragraff (b)(ii) hepgorer "a ganiateir gan is-baragraff (aa)";

(iv) yn is-baragraff (c) hepgorer y geiriau ar ôl "wasanaethau cyhoeddus" hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff (5)(a) hepgorer y geiriau ar ôl "wasanaethau cyhoeddus" hyd at y diwedd.

(7) Yn rheoliad 7A(1), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) rheoliad 6(2)."

(8) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar gyfer "bod o dan do" mewnosoder "ymgynnull mewn mangre o dan do";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) cael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1,";

(ii) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

"(ga) pan fo'r person yn athletwr elit, hyfforddi neu gystadlu,";

(iii) yn is-baragraff (i) hepgorer y geiriau "pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch anghuol ac na ddisgwyllir iddo wella";

(c) that a distance of 2 metres is maintained between persons waiting to enter the premises (except between two members of the same household, or a carer and the person assisted by the carer)."

(5) In regulation 6A(2), omit sub-paragraph (b) and the "or" before it.

(6) In regulation 7—

(a) in paragraph (2)—

(i) for sub-paragraph (aa) substitute—

"(za) for the solemnization of a marriage or formation of a civil partnership,";

(ii) after sub-paragraph (a) insert—

"(aa) for prayer by—

(i) an individual,

(ii) members of the same household, or

(iii) an individual and the individual's carer,

which does not form part of communal worship,";

(iii) in sub-paragraph (b)(ii) omit "allowed by sub-paragraph (aa)";

(iv) in sub-paragraph (c) omit "urgent" and the words after "public services" to the end;

(b) in paragraph (5)(a) omit "urgent" and the words after "public services" to the end.

(7) In regulation 7A(1), for sub-paragraph (b) substitute—

"(b) regulation 6(2)."

(8) In regulation 8—

(a) in paragraph (1)(b), for "be indoors" substitute "gather in indoor premises";

(b) in paragraph (2)—

(i) for paragraph (a) substitute—

"(a) obtain goods or services from any business or service listed in Part 4 of Schedule 1,";

(ii) after sub-paragraph (g) insert—

"(ga) where the person is an elite athlete, train or compete,";

(iii) in sub-paragraph (i) omit the words "where a party to the marriage or civil partnership is seriously ill and not expected to recover";

- (iv) ar ôl is-baragraff (l) mewnosoder—
“(la)pleidleisio mewn etholiad (gan gynnwys mewn etholiad a gynhelir y tu allan i Gymru), pan na fo’n rhesymol ymarferol pleidleisio drwy’r post, drwy ddirprwy neu drwy ddull tebyg arall;”;
- (v) yn lle is-baragraff (q) rhodder—
“(q) symud cartref;
(qa) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;
(qb) ymgymryd â’r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—
(i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;
(ii) gweld eiddo o’r fath;”;
- (c) yn lle paragraff (3) rhodder—
“(3) At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw’n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy’n lleol i’r man lle y mae’r person yn byw, nac aros i ffwrdd o’r ardal honno—
(a) i gael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 50 i 54 o Atodlen 1;
(b) i wneud unrhyw beth arall pe bai’n rhesymol ymarferol i’r person wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.”;
- (d) ar ôl paragraff (5), mewnosoder—
“(6) At ddibenion paragraff (2)(qb), caiff eiddo ei drin fel pe na bai wedi ei feddiannu os nad yw unrhyw berson yn meddiannu’r eiddo fel preswylfa.”.
- (9) Yn rheoliad 8B—
(a) yn is-baragraff (c) ar ôl “angladd” mewnosoder “, priodas neu seremoni ffurfio partneriaeth sifil”;
(b) ar ôl is-baragraff (d)(i) mewnosoder—
“(ia)er mwyn i athletwyr elit hyfforddi neu gystadlu;”.
- (10) Yn Atodlen 1—
(a) hepgorer paragraff 12;
(b) ym mharagraff 21, hepgorer “, cyrtiau chwaraeon”;
(c) hepgorer paragraffau 22 a 23;
- (iv) after sub-paragraph (l) insert—
“(la)vote in an election (including in an election being held outside Wales), where it is not reasonably practicable to vote by post, by proxy or by other similar means;”;
- (v) for sub-paragraph (q) substitute—
“(q) move home;
(qa) prepare a residential property for persons to move in;
(qb) undertake the following activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of unoccupied residential property—
(i) visiting estate or letting agents, developer sales offices or show homes;
(ii) viewing such a property;”
- (c) for paragraph (3) substitute—
“(3) For the purposes of paragraph (1)(a), it is not a reasonable excuse for a person to leave, or remain away from, the area local to the place where the person is living—
(a) to obtain goods or services from a business or service listed in paragraphs 50 to 54 of Schedule 1;
(b) to do anything else if it would be reasonably practicable for the person to do that thing within the area.”;
- (d) after paragraph (5), insert—
“(6) For the purposes of paragraph (2)(qb), a property is treated as unoccupied if no person occupies the property as a residence.”.
- (9) In regulation 8B—
(a) in sub-paragraph (c) after “funeral” insert “, marriage or formation of a civil partnership”;
(b) after sub-paragraph (d)(i) insert—
“(ia) for elite athletes to train or compete;”.
- (10) In Schedule 1—
(a) omit paragraph 12;
(b) in paragraph 21, omit “, sports courts”;
(c) omit paragraphs 22 and 23;

(d) ar ôl paragraff 48 mewnosoder—

“49. Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

50. Delwriaethau ceir.

51. Marchnadoedd awyr agored.

52. Siopau betio.

53. Canolfannau siopa ac arcedau siopa o dan do.

54. Unrhyw fusnes neu fangre arall sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau i'w gwerthu neu i'w llogi mewn siop.”

(d) after paragraph 48 insert—

“49. Estate or letting agents, developer sales offices and show homes.

50. Car dealerships.

51. Outdoor markets.

52. Betting shops.

53. Indoor shopping centres and indoor shopping arcades.

54. Any other business or premises offering goods or services for sale or hire in a shop.”

Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol

3. Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

Savings for offences and penalties in relation to prior acts

3. Regulations 12 and 13 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020 continue to have effect in relation to any offence committed, or reasonably believed to have been committed, before these Regulations came into force as if the amendments set out in regulation 2 had not been made.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
19 Mehefin 2020

The First Minister, one of the Welsh Ministers
19 June 2020

©Hawlfraint y Goron 2020

© Crown copyright 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202006191028 06/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/619>

ISBN 978-0-348-20573-2



9 780348 205732